Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cyflawni Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-2028

llyw.cymru

# Cynnwys


01 Cyflwyniad

02 Strwythur

03 Camau gweithredu trosfwaol

04 Datganiad Gweledigaeth 1
Ceir camau gweithredu i sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith i gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol da

06 Datganiad Gweledigaeth 2
Mae gan bawb yr wybodaeth, y cyfleoedd a'r hyder i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da

10 Datganiad Gweledigaeth 3
Ceir system gysylltiedig lle mae pawb yn cael y lefel briodol o gymorth lle bynnag y maent yn gofyn am help

16 Datganiad Gweledigaeth 4
Ceir gwasanaethau iechyd meddwl di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn ddi-oed



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50636, ISBN digidol 978-1-83715-674-0

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Cymru 2025-2035. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd ledled Llywodraeth Cymru, gan GIG Cymru a chan ein partneriaid allweddol, er mwyn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion tymor hwy yr ymrwymir iddynt yn y strategaeth.

Bydd y camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu cymryd dros y tair blynedd nesaf. Drwy lunio cynllun byr a phenodol, gallwn fyfyrio a gwerthuso, gan sicrhau bod y camau gweithredu'n cyflawni ein hamcanion strategol yn effeithiol. Bydd yr holl gamau gweithredu, oni nodir yn benodol fel arall, yn berthnasol ar draws yr ystodau oedran a bydd gwaith cynllunio manwl yn cael ei wneud ar gyfer pob cam o fywyd. Drwy weithredu'r camau hyn, byddwn hefyd yn sicrhau bod dull croestoriadol yn cael ei ddefnyddio i ystyried anghenion penodol poblogaethau targed.

Bob blwyddyn, bydd diweddariad blynyddol yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun yn cael ei gyhoeddi. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn adolygu cynnydd ac yn nodi unrhyw weithgarwch ychwanegol y credwn fod ei angen i gyflawni yn erbyn y camau blaenoriaeth hyn. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael sylw mewn unrhyw ddiweddariadau ar gynnydd.

## Ein Gweledigaeth

'Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn gwlad sy'n eu hannog, yn eu cefnogi ac yn eu grymuso i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol, a hynny heb stigma a gwahaniaethu.'

# Strwythur

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn dilyn y strwythur canlynol:

**Tudalen 3:** Ceir crynodeb o'r camau gweithredu trosfwaol a fydd yn helpu i weithredu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn eu cyfanrwydd.

**Tudalennau 4-5:** Ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i gefnogi Datganiad Gweledigaeth 1.

**Tudalennau 6-9:** Ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i gefnogi Datganiad Gweledigaeth 2.

**Tudalennau 10-15:** Ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i gefnogi Datganiad Gweledigaeth 3.

**Tudalennau 16-26:** Ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i gefnogi Datganiad Gweledigaeth 4.

Bydd pob adran yn nodi'r hyn sydd angen ei gyflawni, gan bwy ac erbyn pryd, er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau.

# Camau gweithredu trosfwaol

Rhestrir isod y meysydd sydd wedi'u nodi i helpu i weithredu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn eu cyfanrwydd. Bydd y camau gweithredu hyn hefyd yn cefnogi pennod pump o'r strategaeth.

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **T.1.** Sefydlu strwythur llywodraethiant cadarn ar gyfer cyflawni'r strategaeth. | Llywodraeth Cymru | Sefydlu Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol, gyda chylch gorchwyl sy'n nodi'r perthnasoedd â strwythurau/sefydliadau eraill a fframwaith adrodd clir. **O fewn chwe mis.**<br><br>Cyhoeddi adroddiad terfynu sy'n amlinellu'r cyflawniadau yn erbyn y strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* er mwyn pennu'r llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth newydd. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Cyhoeddi fframwaith canlyniadau a 'damcaniaeth newid' a fydd yn helpu i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Cyhoeddi diweddariad yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn adolygu cynnydd ac yn nodi unrhyw weithgarwch ychwanegol y credwn fod ei angen i gyflawni yn erbyn y meysydd blaenoriaeth hyn. **Bob blwyddyn.** | Y Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol<br><br>Bwrdd Rhaglen y Strategaeth |
| **T.2.** Ymgorffori arferion cydgynhyrchu yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r holl gamau gweithredu. | Llywodraeth Cymru | Bydd adrodd i'r Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol yn cynnwys rhoi gwybod am sut y mae pob cam gweithredu wedi cael ei lywio gan gydgynhyrchu[1].<br><br>Sicrhau bod strwythurau a phrosesau ar waith i sicrhau dull croestoriadol o ystyried anghenion penodol poblogaethau targed. **Yn unol ag amserlenni camau gweithredu unigol.** | Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>**(Yn gysylltiedig â cham gweithredu: DG 4.2.)** |

1 Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau Arfer Gorau Cymru ar gyfer Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr ym maes Iechyd Meddwl a ddatblygwyd gan Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru.

# Datganiad Gweledigaeth 1

## Ceir camau gweithredu i sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith i gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol da

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Monitro set o ddangosyddion mesuradwy, trawslywodraethol i olrhain cynnydd ar lefel y boblogaeth a'r rhaglen – a datblygu dull monitro sy'n gwreiddio dysgu o'r dangosyddion hyn wrth ddatblygu polisi sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol.** | | | |
| **DG 1.1.** Sefydlu a monitro set o ddangosyddion mesuradwy i olrhain cynnydd ar lefel y boblogaeth a'r rhaglen. | Llywodraeth Cymru | Cynnwys yn y cylch gorchwyl ar gyfer y Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol fanylion ynghylch sut y bydd y Cyd-fwrdd yn ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â chynnydd i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd meddwl. **O fewn chwe mis.**<br><br>Cyhoeddi'r dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd, a'r broses ar gyfer adolygu ac addasu'n rheolaidd drwy gylchoedd y cynllun cyflawni. **O fewn chwe mis.**<br><br>Yn y Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol, ystyried y cynnydd yn erbyn penderfynyddion ehangach a nodi lle mae angen camau gweithredu wedi'u targedu'n well. **Parhaus.** | Y Cyd-fwrdd Cynghori Gweinidogol<br><br>**(Yn gysylltiedig â cham gweithredu: T.1.)** |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Gwreiddio egwyddorion y strategaeth hon ar draws holl waith y Llywodraeth drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd sy'n ystyried yr effaith ar iechyd corfforol a meddyliol o dan amgylchiadau penodedig.**<br>**Cynyddu ymwybyddiaeth a gallu'r Llywodraeth a'r cyhoedd ehangach a'r trydydd sector i ystyried iechyd meddwl yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu polisi drwy ddatblygu a gweithredu adnoddau hyfforddi.** | | | |
| **DG 1.2.** Ymgorffori'r defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd sy'n ystyried effaith penderfyniadau ar iechyd corfforol a meddyliol. | Llywodraeth Cymru | Cyflwyno Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i sicrhau ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a enwir gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd o dan amgylchiadau penodedig. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Datblygu hyfforddiant sy'n helpu i weithredu'r Rheoliadau ac sy'n pwysleisio pwysigrwydd deall profiadau bywyd pobl o iechyd meddwl a llesiant meddyliol. **Diwedd blwyddyn dau.** | Cyrff Cyhoeddus |
| **DG 1.3.** Gwella'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyrchu ac yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael a helpu swyddogion i ystyried yn effeithiol sut y gall eu meysydd polisi gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl yng Nghymru. | Llywodraeth Cymru | Asesu sut y mae cyrff cyhoeddus yn cyrchu ac yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael a gwneud argymhellion ar sut y gellid gwella hyn. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Datblygu a gweithredu adnoddau hyfforddi i gynyddu ymwybyddiaeth a gallu yn y Llywodraeth i ystyried iechyd meddwl yn llawn wrth ddatblygu polisi. **Diwedd blwyddyn dau.** | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cyrff Cyhoeddus<br>Y Trydydd Sector<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

# Datganiad Gweledigaeth 2

## Mae gan bawb yr wybodaeth, y cyfleoedd a'r hyder i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Datblygu sylfaen gadarn o wybodaeth a thystiolaeth sydd wedi'i chyfathrebu'n glir ar yr hyn sy'n gweithio i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da, a'r hyn sy'n gweithio i atal datblygiad cyflyrau iechyd meddwl ar draws cwrs bywyd.** | | | |
| **DG 2.1.** Adolygu'r sylfaen dystiolaeth a llenwi'r bylchau ynddi o ran yr hyn sy'n gweithio i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da, a'r hyn sy'n gweithio i atal datblygiad cyflyrau iechyd meddwl. | Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp 'Ymchwil a Thystiolaeth' â'r nod o ddeall beth sy'n amddiffyn ac yn hybu llesiant meddyliol da i:<br>• Nodi bylchau mewn tystiolaeth feintiol ac ansoddol. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Blaenoriaethu a chomisiynu ymchwil, gan sicrhau bod profiadau bywyd sy'n cynrychioli ehangder ac amrywiaeth lawn y boblogaeth yn cael eu cofnodi. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Nodi ffyrdd newydd a gwell o rag-weld a mesur tueddiadau o ran llesiant yng Nghymru. **Diwedd blwyddyn dau.** | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Y Gymuned Academaidd<br>Y Trydydd Sector<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |
| **Grymuso a galluogi pawb i gymryd camau i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da ar draws eu bywydau.** | | | |
| **DG 2.2.** Datblygu dealltwriaeth o weithgareddau atal sylfaenol sy'n helpu aelodau o'r cyhoedd i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da. | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Datblygu llinell sylfaen o weithgareddau atal sylfaenol presennol sy'n helpu aelodau o'r cyhoedd i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da. **Diwedd blwyddyn dau.**<br>Gwerthuso gweithgareddau atal sylfaenol sy'n helpu aelodau o'r cyhoedd i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da. **Diwedd blwyddyn tri.** | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br>Cyrff Cyhoeddus<br>Grŵp Partneriaeth Strategol Hapus |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 2.3.** Drwy 'Hapus'[2], darparu gwybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n atal iechyd meddwl gwael ac sy'n amddiffyn ac yn hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da. | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Datblygu Grŵp Partneriaeth Strategol Hapus i hyrwyddo ymgysylltiad â gweithgareddau sy'n hybu llesiant meddyliol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar oedolion ifanc, menywod, pobl mewn iechyd gwael a gofalwyr anffurfiol a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. **Parhaus.**<br><br>Tyfu Rhwydwaith Cefnogwyr Hapus i gryfhau arferion da ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu llesiant. **Parhaus.**<br><br>Casglu a rhannu astudiaethau achos o arferion da gan sefydliadau cymunedol sy'n cyflwyno gweithgareddau sy'n hybu llesiant. **Parhaus.**<br><br>Coladu a hyrwyddo cyfres o offer ac adnoddau sy'n galluogi pobl i ystyried a rheoli eu hemosiynau a chymryd camau i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Hyrwyddo'r defnydd o asedau cymunedol sy'n hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da drwy:<br>• Adolygu'r dystiolaeth a datblygu canllawiau ar yr hyn sy'n gweithio i greu gweithgareddau cymunedol diogel, cynhwysol a chroesawgar. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â rhwystrau a gwella'r hyn sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu llesiant. **Parhaus.** | Grŵp Partneriaeth Strategol Hapus<br><br>Rhwydwaith Cefnogwyr Hapus<br><br>Y Trydydd Sector<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

2 Hapus yw ein sgwrs genedlaethol ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol ac mae'n darparu adnoddau sydd wedi ymrwymo i gefnogi llesiant meddyliol.

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 2.4.** Cryfhau mecanweithiau sy'n cyfeirio aelodau o'r cyhoedd at gyfleoedd iechyd meddwl a llesiant meddyliol ac ymgorffori'r defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pob cymuned. | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru | Ymgorffori llesiant meddyliol yn hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yn barhaus, gan gynnwys:<br>• Canllawiau ar y data craidd sydd i'w casglu gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol fel eu prif swyddogaeth. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Setiau o egwyddorion ar gyfer asedau cymunedol sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Comisiynu platfform sgiliau a gwybodaeth Presgripsiynu Cymdeithasol ar gyfer Ymarferwyr Presgripsiynu Cymdeithasol. **Diwedd blwyddyn dau.**<br>• Datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Adolygu a gwerthuso dulliau presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion o ran cymorth iechyd meddwl a/neu lesiant meddyliol a gwneud argymhellion ar sut y gellir eu cryfhau. **Diwedd blwyddyn dau.** | Cyrff Cyhoeddus<br><br>Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol<br><br>Y trydydd sector<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Gweithrediaeth y GIG (Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl) |
| **DG 2.5.** Sicrhau bod cyflogwyr yn helpu eu gweithlu i gymryd camau i amddiffyn a hybu eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol eu hunain. | Llywodraeth Cymru | Darparu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflogwyr ar sut y gallant helpu gweithwyr i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da drwy sianeli digidol Busnes Cymru a Cymru Iach ar Waith. **Parhaus.**<br><br>Datblygu modiwl hyfforddi i gyflogwyr ar sut y gallant rymuso eu gweithlu i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da. Diwedd blwy. **Parhaus.**<br><br>Datblygu modiwl hyfforddi i gyflogwyr ar sut y gallant rymuso eu gweithlu i gymryd camau i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol da. **Diwedd blwyddyn dau.** | Busnes Cymru<br><br>Cymru Iach ar Waith |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Creu amgylchedd sy'n amddiffyn ac yn hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da a lle mae siarad am gymryd camau i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol a gofyn am gymorth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl yn beth normal.** | | | |
| **DG 2.6.** Mynd i'r afael ag unrhyw fath o stigma sy'n atal pobl rhag cymryd camau i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da a gofyn am gymorth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl. | Llywodraeth Cymru | Gweithio gyda'r trydydd sector a'n rhanddeiliaid i ddatblygu ein dull gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried:<br>• Gwersi a ddysgwyd o'r ymgyrch flaenorol 'Amser i Newid Cymru'.<br>• Y lefel amrywiol o stigma ar draws y sbectrwm o anghenion iechyd meddwl. **Diwedd blwyddyn un.** | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Y Trydydd Sector<br>Cyflogwyr<br>Cyrff Cyhoeddus<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |
| **DG 2.7.** Cryfhau dulliau o rymuso cymunedau a datblygu cymunedau sy'n seiliedig ar asedau. | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Datblygu a lledaenu adnoddau hygyrch ac effeithiol i alluogi ymarferwyr i ddefnyddio dulliau grymuso a dulliau sy'n seiliedig ar asedau wrth weithio gyda'r cyhoedd. **Diwedd blwyddyn un.** | |
| **DG 2.8.** Creu amgylchedd ffisegol sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol. | Llywodraeth Cymru | Coladu a hyrwyddo tystiolaeth sy'n cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd agweddau ar yr amgylchedd ffisegol sy'n effeithio ar lesiant meddyliol, a'r cydberthynasau rhyngddynt. **Diwedd blwyddyn dau.**<br>Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Coedwig Genedlaethol Cymru, i hyrwyddo pwysigrwydd yr amgylchedd adeiledig a naturiol ar lesiant meddyliol a rhannu enghreifftiau o sut y mae byrddau iechyd, ysgolion a sefydliadau eraill wedi defnyddio eu hystadau i greu mannau tawel ac egnïol er budd staff/cleifion/disgyblion ac ymwelwyr. **Parhaus.** | Cymunedau Academaidd<br>Cyrff Cyhoeddus<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |

# Datganiad Gweledigaeth 3

## Ceir system gysylltiedig lle mae pawb yn cael y lefel briodol o gymorth lle bynnag y maent yn gofyn am help

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal. Galluogi babanod, plant a'u teuluoedd i gael mynediad at y cymorth, y cyngor a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol.**<br>**Canolbwyntio ar wella cymorth yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd baban.** | | | |
| **DG 3.1.** Darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau hunangymorth cydgysylltiedig i helpu unigolion i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol. | Llywodraeth Cymru | Ystyried y cymorth digidol sydd ar gael ar lefel ranbarthol yng Nghymru i nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer cydgysylltu a safoni. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Cyflwyno cynnig digidol safonol ledled Cymru. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl |
| **DG 3.2.** Datblygu dull cysylltiedig (dim drws anghywir) a dull sy'n seiliedig ar hawliau plant o ran iechyd meddwl a llesiant meddyliol ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. | Llywodraeth Cymru | Helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid ehangach i weithredu egwyddorion Fframwaith NYTH a'u monitro drwy'r Offeryn Hunanasesu. **Parhaus.**<br>Gwreiddio Fframwaith NYTH yn holl bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru. **Diwedd blwyddyn tri.** | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br>Byrddau Iechyd<br>Awdurdodau Lleol<br>Y Trydydd Sector<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 3.3.** Hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol cyffredinol y teulu drwy ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar ac atal cyfannol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fabanod, plant a'u teuluoedd, gan sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn gynnar cyn iddynt ddwysáu a mynd yn argyfwng. | Llywodraeth Cymru | Dyrannu cyllid i Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Plant a Chymunedau i'w helpu i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth ac atal ar gyfer y blynyddoedd cynnar. **Parhaus.**<br><br>Ymgysylltu â'n rhwydweithiau i sicrhau bod ein polisïau a'n rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael effaith ac yn gwella canlyniadau i fabanod, plant a'u teuluoedd. **Parhaus.** | Awdurdodau Lleol<br><br>Byrddau Iechyd Lleol<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Y Trydydd Sector |
| **DG 3.4.** Canolbwyntio ar wella cymorth i berthnasoedd rhwng rhieni a babanod. | Llywodraeth Cymru | Datblygu dull cytunedig o ymdrin â pherthnasoedd rhwng rhieni a babanod. **Diwedd blwyddyn un.** | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Byrddau Iechyd Lleol<br><br>Y trydydd sector<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Cryfhau'r cysylltiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn darparu cymorth di-dor.** | | | |
| **DG 3.5.** Datblygu model gofal integredig cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn ystyried y System Gofal Cymunedol Integredig a'r 'dull mynediad agored yr un diwrnod' sy'n cael eu sefydlu. | Llywodraeth Cymru<br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Gweithio gyda'r Gymuned Ymarfer Iechyd Meddwl ac Iechyd Emosiynol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddysgu o'r ymarfer presennol i lywio'r gwaith o ddatblygu model gofal integredig cenedlaethol. **Diwedd blwyddyn tri.** | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br>Y Trydydd Sector<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |
| **Helpu Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o drawma drwy roi cymorth i weithredu'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a datblygu unigolion, cymunedau a sefydliadau sy'n ystyriol o drawma.** | | | |
| **DG 3.6.** Gweithio tuag at wneud Cymru yn genedl sy'n ystyriol o drawma, drwy feithrin dealltwriaeth unigol, gymunedol a sefydliadol o drawma ac adfyd, eu cyffredinrwydd, eu heffaith ar bobl, cymunedau a gwasanaethau, a sut y gallwn ni i gyd helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan drawma. | Hyb ACE Cymru<br>Straen Trawmatig Cymru | Gwreiddio'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma mewn polisïau, rhaglenni a strategaethau, a pharhau i roi cymorth i ddatblygu dulliau ac ymyriadau sy'n ystyriol o drawma ar draws pob lefel ymarfer. **Parhaus.** | Llywodraeth Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cymru sy'n Ystyriol o Drawma<br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Gwella mynediad at gyngor ac arbenigedd i bobl sy'n gweithio ym mhob gwasanaeth sydd angen arweiniad i gefnogi pobl ag iechyd meddwl gwael.** | | | |
| **DG 3.7.** Ystyried sut y gallwn ddarparu mynediad hawdd at gyngor i bobl sy'n gweithio ym mhob gwasanaeth a allai fod angen arweiniad i gefnogi pobl ag iechyd meddwl gwael. | Llywodraeth Cymru | Datblygu opsiynau i wella'r cyngor a ddarperir i wasanaethau rheng flaen eraill. Dylai'r gwaith o ddatblygu'r opsiynau hyn gael ei lywio gan y canlynol:<br>• y gwerthusiad o'r gwasanaeth 111 pwyso 2<br>• y broses o gyflwyno rhaglen 'Gofal Cywir, Person Cywir' Llywodraeth y DU gyda heddluoedd yng Nghymru<br>• Gwasanaeth mewngymorth addysg CAMHS<br>**Diwedd blwyddyn dau.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| **Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu set o gamau gweithredu i gefnogi gwahanol rannau o'r system i weithio'n well gyda'i gilydd, gan ganolbwyntio ar anghenion penodol gwahanol boblogaethau, gan gynnwys addysg a chamddefnyddio sylweddau.** | | | |
| **DG 3.8.** Parhau i fwrw ymlaen â gweithredu'r 'Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol a Meddyliol' sy'n canolbwyntio ar addysg, gan sicrhau cysylltiadau allweddol ag iechyd i gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol dysgwyr. | Llywodraeth Cymru | Gweithio gyda meithrinfeydd, ysgolion uwchradd, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig i fabwysiadu a gweithredu'r Dull Ysgol Gyfan, gan ddefnyddio'r Fframwaith Statudol. **Parhaus.** | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br>Y Trydydd Sector<br>Awdurdodau lleol a'u darparwyr a gomisiynwyd<br>Medr |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 3.9.** Sicrhau trefniadau comisiynu cadarn ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru | Adolygu'r trefniadau comisiynu presennol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Cynnal Asesiad o Anghenion Iechyd ar gamddefnyddio sylweddau. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Datblygu dull comisiynu safonol. **Diwedd blwyddyn dau.** | Byrddau Cynllunio Ardal<br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **DG 3.10.** Sicrhau bod pobl sy'n niwroamrywiol ac sydd ag anghenion iechyd meddwl yn cael cymorth amserol ac effeithiol. | Llywodraeth Cymru | Ystyried anghenion sy'n cyd-ddigwydd ymhlith pobl niwrowahanol sydd hefyd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth Statudol. **Diwedd blwyddyn un.**<br>Drwy'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth Genedlaethol, byddwn yn sicrhau bod y gwaith o drawsnewid gwasanaethau i gefnogi mynediad at wasanaethau i bobl niwrowahanol yn cyd-fynd â'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl, a amlinellir yn natganiad gweledigaeth pedwar. **Diwedd blwyddyn dau.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 3.11.** . Sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl yn cael cymorth teg, amserol ac effeithiol. | Llywodraeth Cymru | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith trawslywodraethol i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal o wasanaethau cleifion mewnol arbenigol ac i ddatblygu modelau gofal ataliol newydd, a fydd yn cynnwys cymorth iechyd meddwl. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Byddwn yn sicrhau bod anghenion sy'n cyd-ddigwydd ymhlith pobl ag anableddau dysgu sydd hefyd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol newydd ar gyfer anableddau dysgu. **Diwedd blwyddyn dau.** | |
| **DG 3.12.** Cryfhau'r ymateb i anghenion iechyd meddwl a llesiant meddyliol myfyrwyr mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn eu lleoliadau addysgol a goruchwylio gwaith Medr yn y maes hwn. | Llywodraeth Cymru | Bydd Medr yn sefydlu amodau rheoleiddiol i gefnogi lles dysgwyr a staff, sy'n adeiladu ar arferion da presennol ac sydd wedi'u cryfhau gan fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant meddyliol. **Diwedd blwyddyn dau.** | Medr |
| **DG 3.13.** Sicrhau bod pobl ag amhariad gwybyddol sy'n effeithio ar eu cyfathrebu a/neu eu cof yn gallu cael mynediad at gymorth sy'n hygyrch. | Llywodraeth Cymru | Sicrhau bod y cynllun a fydd yn olynu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn ystyried yn llawn sut y gall gwasanaethau fod yn dderbyniol a pha addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i wasanaethau. Dylai hyn ystyried yr angen am ymarfer sy'n ystyriol o drawma ym maes gofal dementia. **Diwedd blwyddyn un.** | Y Rhaglen Dementia Genedlaethol |

# Datganiad Gweledigaeth 4

## Ceir gwasanaethau iechyd meddwl di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn ddi-oed

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Darparu ffocws clir ar gamau gweithredu a fydd yn cefnogi cynlluniau trawsnewid a gwella ansawdd gwasanaethau ar draws y system iechyd meddwl gyfan.** | | | |
| **DG 4.1.** Sicrhau trefniadau llywodraethiant cadarn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol a chryfhau proffil iechyd meddwl yn eu prosesau cynllunio. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Llywodraeth Cymru | Cwblhau adolygiad o lywodraethiant gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG a threfniadau partneriaeth cysylltiedig. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Codi proffil iechyd meddwl a thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhroses Gynllunio'r GIG. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad o lywodraethiant y GIG. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.2.** Creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol iechyd meddwl sy'n llawn cymhelliant, sy'n ymgysylltiedig ac sy'n cael eu gwerthfawrogi, â'r capasiti, yr hyfedredd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys cynyddu amrywiaeth ein gweithlu a darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflenwi cymorth diwylliannol sensitif a phriodol i grwpiau allweddol, gan gynnwys pobl ethnig leiafrifol, pobl LHDTC+ a siaradwyr Cymraeg. | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Adolygu'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol yn barhaus gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a byrddau iechyd i sicrhau bod cysondeb rhwng yr anghenion. **Parhaus.**<br><br>Meithrin capasiti a gallu wrth gynllunio'r gweithlu a gwella ansawdd data ar y gweithlu ar lefel leol. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Ymgorffori rolau newydd, trawsnewid y gweithlu a gwella gwaith tîm amlddisgyblaethol. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau a'r gallu i ddarparu gofal. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Datblygu arweinyddiaeth effeithiol gref, diwylliant tosturiol, ac ymddygiadau. **Diwedd blwyddyn tri.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Darparwyr gwasanaethau (ar draws y maes iechyd, awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol)<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.3.** Darparu cynllun digidol a data clir ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl sy'n helpu i gyflawni'r strategaeth. | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Sefydlu Grŵp Data, Digidol a Chanlyniadau i ddarparu goruchwyliaeth i'r gwaith ar draws y system. **Sefydlwyd.**<br><br>Datblygu cynllun digidol a data trosfwaol a chynllun gweithredu manwl dwy flynedd **(o fewn y chwe mis cyntaf**). Bydd y cynllun gweithredu manwl hwn yn cynnwys y camau canlynol:<br>• Gorfodi set ddata graidd ar iechyd meddwl ar gyfer gwasanaethau. **Diwedd blwyddyn un.**<br>• Rhoi mesurau canlyniadau a phrofiadau clir ar waith ar draws yr holl wasanaethau, ac adrodd arnynt. **Diwedd blwyddyn tri.**<br>• Cyflwyno cofnod cleifion electronig ledled Cymru. **Diwedd blwyddyn tri.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |
| **DG 4.4.** Gweithio gyda sefydliadau i ddatblygu cynllun blaenoriaethu ar gyfer cyfalaf ac ystadau, er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau ffisegol ar gyfer pob gwasanaeth iechyd meddwl yn addas i'r diben ac yn gwbl hygyrch. | Llywodraeth Cymru | Datblygu darlun cenedlaethol cynhwysfawr o'r ystad iechyd meddwl bresennol. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Sefydlu eglurder ynghylch yr angen am leoliadau cleifion mewnol a chymunedol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â modelau gofal newydd a'r weledigaeth a nodir yn y strategaeth. **Blwyddyn un a dau.**<br><br>Sicrhau bod cynlluniau ystadau iechyd meddwl cenedlaethol a lleol cadarn ar waith, sy'n gyson â'i gilydd ac sy'n mynd i'r afael â'r materion rheoli ystadau strategol a gweithredol parhaus i alluogi rhestr wedi'i blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Datblygu cyfres o ddogfennau sy'n nodi'n glir y gofynion ar gyfer amgylchedd priodol ar gyfer pob rhan o'r ystad iechyd meddwl. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar draws yr holl gynlluniau cyllido cyfalaf sydd ar gael i sicrhau bod cysondeb ehangach yn cael ei gydnabod a'i ddatblygu, yn enwedig gyda ffocws ar ddatblygu modelau cymorth amgen. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.5.** Parhau i weithio gyda Technoleg Iechyd Cymru a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r defnydd o ymchwil, technoleg a/neu fodelau gofal sy'n berthnasol i wella iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl Cymru. | Llywodraeth Cymru<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Datblygu rhwydwaith ymchwil a thystiolaeth i gefnogi'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r angen sylweddol sydd heb ei ddiwallu am opsiynau triniaeth newydd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl a gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i hyrwyddo cyfleoedd cyllido ymchwil. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Y Sector Ymchwil Iechyd a Gofal<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd |
| **DG 4.6.** Sicrhau bod cynllun clir i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chymorth iechyd meddwl a sut i gael mynediad atynt. | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Iechyd | Datblygu cynllun cyfathrebu sy'n galluogi gwybodaeth i gael ei darparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cydymffurfio â Safon Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Cholled Synhwyraidd a Chyfathrebu â Hwy. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Gweithredu cynllun cyfathrebu. **Diwedd blwyddyn tri.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Darparwyr gwasanaethau<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>**(Yn gysylltiedig â DG 3.7.)** |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Gosod y safonau ar gyfer cyflawni yng Nghymru i gefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi mynediad teg at wasanaethau i bawb, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig (yn unol â'r disgrifiad yn Neddf Cydraddoldeb 2010) a dewis iaith.** | | | |
| **DG 4.7.** Gosod y safonau ar gyfer yr hyn y disgwylir i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid a gomisiynwyd ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd da ledled Cymru. | Llywodraeth Cymru<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Datblygu datganiad ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol integredig wedi'i gydgynhyrchu ar gyfer iechyd meddwl sy'n cwmpasu gwasanaethau cleifion mewnol a chymunedol. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Adolygu Fframwaith Cydraddoldeb Hil Cleifion a Gofalwyr GIG Lloegr i lywio gwaith ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a blaenoriaethau iechyd yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – sy'n cynnwys ffocws penodol ar ddileu rhwystrau sy'n atal pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag cael mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd. Bydd hyn hefyd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen blaenorol ar Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Datblygu manylebau gwasanaeth priodol i gefnogi datganiadau ansawdd. Bydd y rhain yn cefnogi cyfnodau pontio a arweinir gan angen ac yn ystyried canllawiau perthnasol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a chanllawiau NICE. **Blwyddyn dau a thri.**<br><br>Cyflawni ein hymrwymiad yn Mwy na Geiriau i ddatblygu a gweithredu adnoddau ymhellach i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau iaith Gymraeg i brosesau cynllunio a llunio polisïau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gweithredu Canllawiau Cynllunio gweithlu ar gyfer yr Iaith Gymraeg Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol – drwy (er enghraifft) y Cwrs Croeso a'r Cwrs Codi Hyder a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel rhan o'i chynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth a'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Darparwyr gwasanaethau<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth<br><br>Coleg Brenhinol y Seiciatryddion<br><br>Addysg a Gwella Iechyd Cymru |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.8.** Ymgorffori arferion cydgynhyrchu yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau, drwy weithredu'r 'Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a Recriwtio' a ddatblygwyd gan Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru. | Llywodraeth Cymru<br><br>Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru | Gweithrediaeth y GIG a'r holl ddarparwyr gwasanaethau i ddefnyddio'r canllawiau'n rheolaidd. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Adolygu'r canllawiau i gefnogi gwobrwyo/cydnabod cyfranogiad pobl sydd â phrofiad bywyd ymhellach. **Diwedd blwyddyn tri.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Darparwyr gwasanaethau<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>**(Yn gysylltiedig â cham gweithredu: T.2.)** |
| **DG 4.9.** Galluogi gwasanaethau iechyd meddwl i gefnogi pobl fyddar yn well. | Llywodraeth Cymru | Ystyried canfyddiadau'r adolygiad diweddar o wasanaethau iechyd meddwl i bobl fyddar[3] a datblygu cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r dull canolog o wella cymorth i bobl â cholled synhwyraidd ar draws yr holl wasanaethau iechyd. **Diwedd blwyddyn un.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |

3 Cynhaliwyd gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion.

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.10.** Datblygu dull newydd o ddarparu gofal ymyrraeth gynnar, gyda'r bwriad o gyflwyno mynediad agored at ofal seicolegol yr un diwrnod yn seiliedig ar ddulliau un sesiwn sy'n hygyrch ledled Cymru lle bynnag y bo'i angen. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Ymgymryd â gwaith ymgysylltu i lywio'r gwaith o ddatblygu dull mynediad agored yr un diwrnod. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Dylunio a chyhoeddi cynllun ar gyfer gweithredu. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Gan ystyried canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, gweithredu dull mynediad yr un diwrnod yn raddol. Dylai gwneud hynny'n raddol olygu gwerthuso'r broses gyflwyno gychwynnol. **Blynyddoedd dau a thri.** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru<br><br>Darparwyr gwasanaethau<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>**(Yn gysylltiedig â cham gweithredu: DG 4.7.)** |
| **DG 4.11.** Datblygu cynnig cyson o gymorth iechyd meddwl a ddarperir gan feddygon teulu/clystyrau a llwybrau clir i wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Gweithio gyda chlystyrau i sicrhau bod cynnig cyson a llwybr clir ar waith, gan gynnwys porth gwe sy'n hygyrch i'r cyhoedd i alluogi mynediad at wybodaeth a deunydd hunangymorth, ac i alluogi hunanatgyfeirio at wasanaethau. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Amlinellu camau pellach sydd eu hangen i gefnogi dysgu a datblygiad cydweithwyr gofal sylfaenol wrth ystyried anghenion iechyd meddwl a llesiant meddyliol ar draws ein poblogaethau, gan gynnwys pobl sy'n niwrowahanol, pobl ag anabledd dysgu, pobl sy'n byw gyda dementia a phobl sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau. **Diwedd blwyddyn dau.** | Llywodraeth Cymru |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.12.** Datblygu ein gwasanaethau asesu o bell, ymyriadau a chymorth rheng flaen (megis IM111#2 a CALL) i sicrhau eu bod yn cysylltu â rhannau eraill o'r systemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, niwrowahaniaeth ac iechyd corfforol. | Llywodraeth Cymru<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru | Adolygu'r holl ddrysau ffrynt presennol i'r system iechyd meddwl a sicrhau bod un llwybr clir ar gyfer cyngor a chymorth i bobl mewn argyfwng. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Adolygu llwybrau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar draws ein poblogaeth. Gan gynnwys ar gyfer pobl fyddar; pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; pobl LHDTC+; a chymunedau eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Ystyried opsiynau ar gyfer synergedd ac effeithlonrwydd rhwng gwasanaethau presennol ac ailgynllunio/ailgomisiynu gwasanaethau yn ôl yr angen. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Cynnig cyson a llwybr clir ar waith. **Diwedd blwyddyn tri.** | Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Darparwyr gwasanaethau |
| **Cyflwyno model adferiad ar gyfer cymorth iechyd meddwl cymunedol.** | | | |
| **DG 4.13.** Datblygu model cymorth iechyd meddwl cymunedol sy'n canolbwyntio ar adferiad ymhellach. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Nodi a rhannu arferion gorau mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Rhoi trefniadau ar waith i dreialu model gofal fesul cam ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol (gan gynnwys ardaloedd trefol a gwledig) ac ar draws yr ystodau oedran. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Cynnal dadansoddiad o'r galw a'r capasiti yn erbyn pob un o'r camau yn y model fesul cam yn y safleoedd peilot i dynnu sylw at fylchau yn y gwaith cynllunio a chomisiynu sy'n ofynnol. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Gwerthuso'r model, i gynnwys gosod targedau ansawdd a pherfformiad newydd ac ychwanegol ar draws y system gofal fesul cam ac adrodd yn eu herbyn. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Addysg a Gwella Iechyd Cymru |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.14.** Gwella Mynediad at Ymyriadau a Therapïau Seicolegol. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar gyflyrau iechyd meddwl cyffredin fel gorbryder ac iselder yn ogystal â chefnogi pobl â seicosis, anhwylder deubegynol a chyflyrau sy'n deillio o drawma a phobl â chyflyrau iechyd corfforol hirdymor. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Sefydlu Rhaglen i ddarparu goruchwyliaeth i'r gwaith ar draws y system. **(y tri mis cyntaf).**<br><br>Ailsefydlu prosesau i ddiweddaru'r tablau tystiolaeth sy'n cefnogi Matrics Cymru a'r Matrics Plant yn systematig. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Gwneud cynnydd o ran cytuno ar y therapïau seicolegol a gynigir ar gyfer iechyd meddwl amenedigol. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Mynediad cynhwysfawr at raglen therapïau seicolegol sy'n dangos mynediad gwell ac amseroedd aros llai. **Diwedd blwyddyn tri.** | Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Darparwyr gwasanaethau |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi camau gweithredu i sicrhau bod arosiadau cleifion mewnol yn bwrpasol, bod gofal yn cael ei roi mewn amgylcheddau diogel o ansawdd uchel a bod y bobl sy'n mynd i mewn i'r system mewn argyfwng yn cael profiad gwell.** | | | |
| **DG 4.15.** Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar gyfer diogelwch cleifion iechyd meddwl sy'n dangos llai o niwed ar draws gwasanaethau iechyd meddwl craidd. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Datblygu safonau clir ar gyfer derbyn cleifion i ddarpariaeth cleifion mewnol a'u rhyddhau, a sicrhau bod gwaith cynllunio diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i gynnwys mewn cynlluniau rheoli risg. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Sefydlu rhaglen diogelwch cleifion ar gyfer gwasanaethau cymunedol gofal eilaidd. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Rhoi set o fetrigau diogelwch ar waith ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd, ac adrodd ar y metrigau hynny. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Ymgorffori safonau yn ymarferol o fewn y ddarpariaeth i gleifion mewnol. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Rhoi mesurau canlyniadau a phrofiadau clir ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau cleifion mewnol **(diwedd blwyddyn dau)** ac ar gyfer gwasanaethau cymunedol **(diwedd blwyddyn tri).**<br><br>Datblygu a gwella'r timau sy'n darparu gofal cleifion mewnol, gyda phwyslais cryf ar weithio amlbroffesiwn, perthynol a chymorth gan gymheiriaid. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Sicrhau bod gan bobl fynediad at ymyrraeth seico-gymdeithasol o ansawdd uchel a gweithgarwch ystyrlon mewn lleoliadau cleifion mewnol. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Darparwyr gwasanaethau |

| Cam gweithredu | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud ac erbyn pryd | Rhanddeiliaid allweddol (camau gweithredu rhyngddibynnol) |
|---|---|---|---|
| **DG 4.16.** Datblygu gweledigaeth hirdymor o ran gofal acíwt a gofal argyfwng ar gyfer iechyd meddwl. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Datblygu ein gweledigaeth ar gyfer gofal acíwt a gofal argyfwng gwell. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Gwerthuso cynlluniau peilot y Prosiectau Noddfeydd Iechyd Meddwl. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Yn seiliedig ar waith blaenorol, datblygu ac ymgorffori dull gweithredu tymor hwy o ddarparu gofal acíwt a gofal argyfwng. **Diwedd blwyddyn tri.** | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru<br><br>Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Darparwyr gwasanaethau |
| **Blaenoriaethu camau a fydd yn cefnogi gwella iechyd corfforol pobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus, gan leihau'r bwlch marwolaethau rhwng pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus a'r rhai nad oes ganddynt y cyflyrau hynny.** | | | |
| **DG 4.17.** Sicrhau bod pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl hirdymor yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion iechyd corfforol drwy ehangu mynediad at ofal iechyd corfforol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl | Adolygu'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Cydgynhyrchu'r cynllun gyda phobl sydd â phrofiad bywyd. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Sefydlu manyleb newydd ar sail clwstwr i wella iechyd corfforol pobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus. **Diwedd blwyddyn dau.**<br><br>Ehangu mynediad at sgrinio, cyngor, cymorth i newid ymddygiad a gofal iechyd corfforol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. **Diwedd blwyddyn tri.** | Pobl sydd â phrofiad bywyd<br><br>Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Cyflwyno rhaglen waith ddeddfwriaethol sy'n cefnogi cyflwyno a gweithredu deddfwriaeth iechyd meddwl.** | | | |
| **DG 4.18.** Sicrhau bod rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei sefydlu sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn gwella bywydau a llesiant meddyliol dinasyddion. | Llywodraeth Cymru | Sicrhau bod Bil Iechyd Meddwl Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â'r anghenion yng Nghymru. **Diwedd blwyddyn un.**<br><br>Cychwyn (blwyddyn un) a gweithredu rhaglen ar gyfer y Bil Iechyd Meddwl. **Diwedd blwyddyn tri.**<br><br>Datblygu cynllun rhaglen waith ddeddfwriaethol ym maes iechyd meddwl. **Diwedd blwyddyn dau.** | Y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl<br><br>Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |